# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13699

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Chwefror 2024

Amser: 10.59 - 17.00

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jenny Rathbone AS (Cadeirydd)<br>Jane Dodds AS<br>Altaf Hussain AS<br>Sarah Murphy AS<br>Sioned Williams AS<br>Ken Skates AS |
| Tystion: | Hannah Blythyn AS, Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol<br>Liz Lalley, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Coates, y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd<br>Dr David Dallimore, Prifysgol Bangor<br>Jane O'Toole, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs<br>Sarah Mutch, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Hayli Gibson, Cyngor Sir Penfro |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Janet Kelly, Sparkle<br>Cheryl Salley, Meithrinfa Darling Buds<br>Dan Stephens, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Rhys Morgan (Clerc)<br>Angharad Roche (Dirprwy Glerc)<br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Claire Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd dirprwyon na datganiadau o fuddiant.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Altaf Hussain mewn perthynas ag eitemau 6, 7, 8 a 9 o'r agenda.

## 2 Papurau i'w nodi

Nododd yr Aelodau'r papurau.

2.1 Gohebiaeth oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at y Cadeirydd ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

2.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

2.3 Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Cadeirydd ynghylch ymchwiliad dilynol y Pwyllgor i ofal plant

2.4 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gwariant y Gyllideb

2.5 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Cadeirydd ynghylch gwybodaeth ychwanegol am Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

2.6 Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Cadeirydd ynghylch gwybodaeth ychwanegol am Gyllideb Ddrafft 24/25

2.7 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch lansio'r ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r broses 'Gweithio i Wella'

2.8 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

## 3 Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub: sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol a'r Prif Gynghorydd Tân

Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan:

Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

Dan Stephens, Prif Gynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru

Liz Lalley, Cyfarwyddwr – Risg, Cadernid a Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 5, 8 a 9 o gyfarfod heddiw

Derbyniodd yr Aelodau'r cynnig.

## 5 Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub: trafod y dystiolaeth

Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth.

## 6 Ymchwiliad dilynol i ofal plant: sesiwn dystiolaeth 1

Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan:

Dr David Dallimore, ymchwilydd polisi cymdeithasol a oedd yn arfer cael ei gyflogi gan Brifysgol Bangor a Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru

Hayli Gibson, Pennaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, Cyngor Sir Penfro

Janet Kelly, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Sparkle Cymru

## 7 Ymchwiliad dilynol i ofal plant: sesiwn dystiolaeth 2

Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan y tystion a ganlyn:

Sarah Coates, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (aelod o Bartneriaeth CWLWM)

Jane O'Toole, Clybiau Plant Cymru (aelod o Bartneriaeth CWLWM)

Sarah Mutch, Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cheryl Salley, Cyfarwyddwr Meithrinfa Darling Buds Cyf

## 8 Ymchwiliad dilynol i ofal plant: trafod y dystiolaeth

Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth.

## 9 Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: trafod yr adroddiad drafft

Cytunodd yr Aelodau ar yr adroddiad drafft.